www.pwc.co.uk/cymru

# *Cyngor Sir Ynys Môn*
# Adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio – 14 Medi 2011

*14 Medi 2011*

***Y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig***

*Rydym yn cynnal ein harchwiliad yn unol â Chod Ymarfer Archwilio (y Cod) Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010. Caiff hwn ei ategu gan y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005. Mae'r ddwy ddogfen ar gael gan Brif Weithredwr pob corff archwiliedig. Diben y datganiad hwn yw cynorthwyo archwilwyr a chyrff archwiliedig drwy esbonio cwmpas cyfrifoldebau archwilwyr, a'r hyn a ddisgwylir gan gyrff archwiliedig mewn meysydd penodol. Paratoir ein hadroddiadau a'n llythyrau yng nghyd-destun y datganiad hwn ac yn unol â'r Cod.*

*Caiff yr adroddiadau a'r llythyrau a baratoir gan archwilwyr a benodwyd a'u cyfeirio at aelodau neu swyddogion eu paratoi at ddefnydd y corff archwiliedig yn unig, ac nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr archwilwyr i unrhyw Aelod neu swyddog yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.*

pwc

# *Tabl Cynnwys*

Datganiad am sefyllfa archwiliad 2010/11 ..... 3
Grantiau ..... 3
Materion eraill ..... 5
Archwilydd Penodedig Unigol ..... 5
Datganiad Cyfrifon 2010/11 ..... 5
Trefniadau cydlynu ..... 6

# *Datganiad am sefyllfa archwiliad 2010/11*

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr archwiliad yn erbyn y cerrig milltir allweddol a nodir yn Strategaeth Archwilio 2010/11 a gwaith perfformiad arall y gofynnwyd amdano gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

| Cynllun archwiliad 2010/11 | Erbyn | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|
| **Cynllunio archwiliadau a chyflwyno adroddiadau** | | |
| Strategaeth archwilio | Mai 2011 | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2011. |
| Llythyr blynyddol | Tachwedd 2011 | I'w gyflwyno ar ôl cwblhau'r archwiliad yn Adroddiad Gwella Blynyddol SAC. |
| **Cyfrifon** | | |
| Profi datganiadau ariannol | Gorffennaf – Medi 2011 | Gweler yr adran 'Datganiad Cyfrifon 2010/11'. |
| Adroddiad ar y cyfrifon terfynol (ISA 260) | Nid cyn Mis Hydref | Gweler yr adran 'Datganiad Cyfrifon 2010/11'. |
| Cyfrifon y Llywodraeth gyfan | Nid cyn Mis Hydref | Gweler yr adran 'Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan'. |
| **Perfformiad** | | |
| Cyfraniad i Fesur Llywodraeth Leol SAC | Yn mynd rhagddo | Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a bydd yn parhau drwy gydol y flwyddyn ar wahanol agweddau ar y Mesur Llywodraeth Leol. |
| Archwiliad o ddangosyddion perfformiad | Gorffennaf 2011 | Cwblhawyd y gwaith yn y maes hwn. |
| Gwaith dilynol ar argymhellion archwiliad blaenorol | Gorffennaf 2011 | Gwaith i'w gwblhau yn ystod yr archwiliad o'r cyfrifon terfynol. |
| Casgliad gwerth am arian | Medi 2011 | Gwaith i'w gwblhau yn ystod yr archwiliad o'r cyfrifon terfynol. |
| Archwiliad o'r Cynllun Gwella | Tachwedd 2011 | Gwaith i'w gwblhau yn ystod mis Tachwedd 2011 a chaiff ei gynnwys yn Adroddiad Gwella Blynyddol SAC. |

## *Grantiau*

Rydym yn parhau i gynnal ein harchwiliadau grant drwy gydol y flwyddyn. Mae statws y gwaith grant fel a ganlyn:

**Grantiau 2007/08:**

Gwnaethom nodi yn eich cyfarfod diwethaf ein bod wedi derbyn nifer o gwestiynau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ynghylch y cais am gymhorthdal budd-dal tai a budd-dal treth gyngor yn 2007/08. Ardystiwyd y cais ym mis Gorffennaf 2009, ond roedd sawl amod cymhwyso. Cyfeiriodd DWP nifer o gwestiynau ynghylch yr amodau cymhwyso atom ni ac mae angen i'r Cyngor wneud mwy o waith mewn meysydd penodol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â cheisiadau coll, er enghraifft. Rydym wedi ysgrifennu i DWP gan nodi ein hymatebion i'r pwyntiau a godwyd.

**Grantiau 2009/10:**

Mae pob cais am grant yn 2009/10 wedi'i ardystio ac eithrio'r cymhorthdal budd-dal tai a budd-dal treth gyngor a rheoli gwastraff cynaliadwy. Rydym yn aros am wybodaeth gan y Cyngor mewn perthynas â'r rhain.

**Grantiau 20010/11:**

Rydym wedi dechrau'r archwiliadau canlynol:

- Ffurflen Ardrethi Annomestig Cenedlaethol 3;
- Grant ardal adfywio strategol;
- Ceisiadau Cymunedau yn Gyntaf.

Cynhelir y rhan fwyaf o'r gwaith ardystio grantiau dros yr hydref yn unol â therfynau amser a bennwyd gan gyrff ariannu, yn bennaf Llywodraeth Cymru.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Cyngor wneud rhagor o waith ar y cais Cymorth o ganlyniad i faterion a godwyd yn llythyr cymhwyso'r archwiliad ar gyfer 2009/10. Mae'r Awdurdod wrthi'n paratoi'r wybodaeth sydd ei hangen a gwneir y gwaith archwilio ychwanegol ar ddiwedd mis Medi.

# Materion eraill

Mae'r canlynol yn nodi'r materion a godwyd yn ein gwaith ers y cyfarfod diwethaf er gwybodaeth i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

## Archwilydd Penodedig Unigol

Ers ein hadroddiad i'r Pwyllgor Archwilio, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi neilltuo Archwilydd Penodedig Unigol ar gyfer y Cyngor, sef Anthony Barrett. Mae'r Archwilydd Penodedig Unigol hwn eisoes yn arwain nifer o archwiliadau yn y sector cyhoeddus ac yn ceisio sicrhau cysondeb o ran gwaith archwilio a wneir ledled Cymru. Yn weithredol, bydd PwC yn parhau i gynnal y rhaglen archwilio allanol, gan ffurfio barn er mwyn ymdrin â'r materion sy'n codi ynglŷn â'r archwiliad. Ar ddiwedd yr archwiliad, bydd PwC yn cyflwyno barn i'r Archwilydd Penodedig Unigol a fydd wedyn yn llofnodi'r cyfrifon ei hun. Rydym eisoes yn gweithio o dan y gyfundrefn hon ar gyfer nifer o'n cleientiaid eraill. Ers ei benodi i'r swydd hon, mae PwC wedi bod mewn cysylltiad â'r Archwilydd Penodedig Unigol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am statws yr archwiliad.

## Datganiad Cyfrifon 2010/11

Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio diwethaf o'r effaith sylweddol y byddai oedi cyn cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2010/11 yn ei chael arnom fel archwilwyr ac o ran a fyddem yn gallu cwblhau'r archwiliad erbyn y dyddiad cau ym mis Medi. Rydym eisoes wedi ysgrifennu at y swyddog Adran 151 i nodi'r materion y byddai eu hangen arnom i gyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon erbyn y dyddiad cau hwn, gan gynnwys argaeledd papurau gwaith ategol.

Ysgrifennodd swyddog Adran 151 y Cyngor i PwC ar 28 Mehefin 2011 gan ei hysbysu y byddai'r holl bapurau gwaith sy'n ategu'r cyfrifon ar gael ar 1 Awst 2011. Cyfarfu PwC â swyddogion y Cyngor ar 1 Awst 2011. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o bapurau gwaith a gyflwynwyd i ategu'r Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd papurau gwaith yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf i ategu'r Datganiad Cyfrifon a bydd y diweddaraf o'r rhain ar gael ar 8 Medi, dros bum wythnos ar ôl y dyddiad y cytunwyd arno. Ers cael y papurau gwaith, rydym bellach yn gweld nifer o faterion archwilio yn dod i'r amlwg y bydd angen eu datrys cyn rhoi barn archwilio.

Mae tîm PwC wedi gweithio'n agos gyda'r Cyngor ac mae wedi neilltuo adnoddau ychwanegol ar gyfer y broses archwilio. Fodd bynnag, oherwydd y materion a godwyd uchod, ni fydd yn bosibl cwblhau'r archwiliad erbyn 30 Medi 2011. Ysgrifennodd yr Archwilydd Penodedig Unigol i'r Cyngor ar 9 Medi 2011 gan ailadrodd y neges hon a nododd ei bryderon ei hun ynghylch y proses paratoi cyfrifon. At hynny, mae wedi nodi y bydd yn ystyried ymhellach a yw'r mater yn cyfiawnhau adroddiad er budd y cyhoedd.

Bydd y tîm yn parhau i weithio'n agos gyda'r Cyngor i adennill o leiaf rywfaint o'r amser a gollwyd oherwydd yr oedi a achoswyd drwy gael cyfrifon a phapurau gwaith yn hwyr; ac erbyn hyn mae'n debyg na chaiff yr archwiliad ei gwblhau cyn diwedd mis Hydref 2011. Mae hyn yn dibynnu ar ddatrys yn brydlon ymholiadau a nodwyd yn ystod y gwaith archwilio sy'n mynd rhagddo.

## Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

Mae Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn ddatganiadau ariannol cyfunol sector cyhoeddus o fath masnachol a baratoir gan y Trysorlys yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Darperir y sail statudol ar gyfer paratoi ac archwilio Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan gan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae pob corff cyhoeddus yn cwblhau pecyn 'L' y disgwylir iddo gael ei gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2011 fel y gellir eu cyfuno'n briodol. Eleni, cyflwynodd y Cyngor ei ffurflen cyfrifon i Lywodraeth Cymru ar 30 Awst 2011, dros chwe wythnos yn hwyr.

Fel archwilwyr, mae'n ofynnol i ni gwblhau'r archwiliad erbyn y dyddiad cau, sef 29 Medi 2011. Am i'r ffurflen cyfrifon gael ei chyflwyno'n hwyr ac am ein bod yn dal i aros am bapurau gwaith, ni fyddwn yn gallu cwblhau'r archwiliad erbyn y dyddiad cau hwn. Gan ddibynnu ar ansawdd y ffurflen cyfrifon a gyflwynir a'r papurau gwaith sy'n deillio ohonynt, rydym o'r farn na chaiff y gwaith ei gwblhau cyn diwedd mis Hydref.

# *Trefniadau cydlynu*

## â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r gwasanaeth archwilio mewnol i sicrhau dull archwilio effeithiol. Rydym yn parhau i gyfarfod â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i drafod hynt gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2010/11 ac rydym wedi adolygu ei waith yr ydym am ddibynnu arno a chafwyd y gallwn barhau i ddibynnu ar waith y gwasanaeth archwilio mewnol at ddibenion ein harchwiliad o ddatganiadau ariannol.

## â rheolwyr

Rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â rheolwyr i sicrhau ein bod yn deall y materion allweddol a wynebir gan y Cyngor er mwyn asesu eu heffaith ar ein dull archwilio.

## â chomisiynwyr

Rydym wedi cyfarfod â chomisiynwyr i drafod materion sy'n berthnasol i'n rôl fel archwilwyr allanol, ac wedi cyfarfod â chomisiynwyr a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) fel rhan o asesiad corfforaethol SAC ac i drafod effaith ehangach y gwaith o reoleiddio'r Cyngor yn ystod deiliadaeth y comisiynwyr.

## â SAC

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda SAC a chyfarfod â hi'n rheolaidd. Yn fwy diweddar rydym wedi cyfarfod â SAC i drafod yr adborth ar y llythyr asesu corfforaethol a'r paratoadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae ein gwaith maes o ran ein hymchwiliad i'r honiadau ynghylch gweinyddu grant cartrefi gwag a grant gwella trefi wedi'i gwblhau ac rydym wrthi'n paratoi ein hadroddiad.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw'r deiliad, Cyngor Sir Ynys Môn, at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Cod hwn yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, fel ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae trydydd partïon perthnasol yn cynnwys PricewaterhouseCoopers LLP ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at infoofficer@wao.gov.uk.

(h) 2011 PricewaterhouseCoopers LLP. Cedwir pob hawl. Mae "PricewaterhouseCoopers" yn cyfeirio at PricewaterhouseCoopers LLP (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn y Deyrnas Unedig) neu, gan ddibynnu ar y cyd-destun, gwmnïau eraill sy'n aelodau o PricewaterhouseCoopers International Limited, y mae pob un ohonynt yn endid cyfreithiol annibynnol ac ar wahân.

Diogelir yr adroddiad hwn o dan gyfreithiau hawlfraint y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Ni chaniateir defnyddio'r wybodaeth hon, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, na'i datgelu heb ganiatâd ysgrifenedig PricewaterhouseCoopers LLP.

C11374